Gwybodaeth am ddefnyddio eich Tocyn Teithio Gostyngol 19-22

Gan eich bod wedi cyrraedd eich 19eg pen-blwydd nid ydych mwyach yn gallu defnyddio eich tocyn bws 16-18. Fodd bynnag mae gennych hawl i tocyn teithio gostyngol 19-22.

Gallwch ddefnyddio tocyn, a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar wasanaethau ARRIVA, GHA Coaches, Bryn Melyn a Johns Travel sy'n rhedeg ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, Sir Ddinbych neu Sir y Fflint.

Bydd gennych hawl i 23% o leiaf oddi ar bris tocyn oedolyn ar holl wasanaethau bws lleol sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau bysiau sy'n cyfranogi. Mae eich ffotograff ar eich tocyn a dim ond chi sydd i'w ddefnyddio a bydd angen i chi ei ddangos i'r gyrrwr wrth fynd ar y bws i gael eich gostyngiad. Hefyd rhaid ei ddangos i arolygydd os bydd yn gofyn. Os na fyddwch yn dangos eich tocyn bydd y gostyngiad yn cael ei wrthod a bydd pris tocyn llawn yn cael ei godi am y daith. Wrth deithio gyda'ch tocyn rydych yn derbyn rheolau a rheoliadau'r cwmni bysiau. Nid yw'r tocyn yn rhoi unrhyw hawliau i chi heblaw'r rhai sy'n berthnasol i unrhyw deithiwr sy'n talu pris llawn am deithio. Mae eich tocyn yn aros yn eiddo'r awdurdod sy'n ei roi a gall y Cyngor neu'r cwmni bysiau ei dynnu'n ôl os byddwch yn ei gamddefnyddio.

Bydd eich tocyn teithio 19-22 yn ddilys o ddyddiad ei gyhoeddi hyd at eich 23ain pen-blwydd.

Bydd eich tocyn yn ddilys drwy'r dydd, bob dydd ar deithiau sy'n cychwyn neu'n gorffen ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, Sir Ddinbych neu Sir y Fflint.

Er enghraifft os byddwch yn teithio o Wrecsam i Gaer bydd gennych hawl i'r pris tocyn gostyngol ond i chi fynd ar y bws ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn yr un modd, os byddwch yn teithio'n ôl i Wrecsam, bydd eich tocyn yn ddilys ond eich bod yn gadael y bws yn y Fwrdeistref Sirol.

Adnewyddu Tocyn

Os cafodd eich tocyn ei golli, ei ddifrodi neu ei ddwyn bydd y Cyngor yn codi £5 am docyn yn ei le.

Os byddwch angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â Chydlynu Cludiant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 01978 297131
neu e-bostio businfo@wrexham.gov.uk

I gael gwybod am Amserlenni Bysiau cysylltwch â Llinell Fysiau Wrecsam ar 01978 266166
neu yn www.wrecsam.gov.uk/bws

Cyhoeddwyd gan Gydlynu Cludiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2007.

Anfonwch eich manylion ar y ffurflen sydd gyferbyn, ynghyd â llun maint pasport, prawf o'ch oed a phrawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad sydd wedi'l nodi, ac arhoswch l'ch cerdyn gyrraedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Uned Tocynnau Mantais, Cydlynu Trafnidiaeth, Adeiladau'r Goron, 31 Stryd Caer, Wrecsam LL13 8BG.

Ffurflen Gais 19 - 22

Dyddiad geni :.....

Enw : .....

Cyfeiriad : .....

.....

Côd Post : .....

Rwy,n datgan fy mod:

- Yn 19 – 22
- Rwy'n breswylydd parhaus ym Mwredeistref Sirol Wrecsam.

Llofnod : ..... Dyddiad : .....

Proseswyd

Dyddiau geni……..…….. Prawf ……..……..……

Dilyswyd…… Dyddiad……

Rhif……..… Dyddiad Derbyn……..

wrexham COUNCIL
CYNGOR wrecsam

lCyhoeddwyd gan Gydlynu Cludiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2007.